# PLANNU TORLANNOL

Ein cyrsiau dŵr yw gwythiennau ecolegol cefn gwlad Prydain, gan gysylltu ein tirweddau a darparu cyfoeth o wasanaethau ffermio a bioamrywiaeth hanfodol. Mae afonydd a nentydd yn wynebu llawer o fygythiadau, ond gall plannu coed ar hyd eu hymylon liniaru rhai o'r bygythiadau hyn, gan gynnig llu o fanteision i ffermydd a'r amgylchedd ar yr un pryd.



Mae plannu torlannol yn helpu i leihau erydiad pridd ac yn sefydlogi glannau afonydd gyda gwreiddiau coed, gan atal afonydd rhag ymledu ar dir fferm. Mae'r coed hefyd yn dal pridd a allai fel arall olchi i ffwrdd, gan leihau gwaddod a faint o faeth sy'n cronni yn y dŵr.

Mae coed yn arafu dŵr ffo ar yr arwyneb yn ystod glaw trwm, gan leihau'r pwysau ar afonydd a helpu i atal llifogydd i lawr yr afon. Gall hyn fod y defnydd gorau o'r tir, oherwydd gall glannau afonydd fod yn serth ac yn anhygyrch ac, o ganlyniad, fod o fudd i fywyd gwyllt a'r amgylchedd heb effeithio ar gynhyrchiant. Ar ddiwrnodau poeth, mae cysgod y coed yn helpu i gadw tymheredd y dŵr i lawr, gan ddarparu gwarchodaeth hanfodol i ecosystemau dyfrol.

Gellir cynllunio plannu torlannol mewn ffordd sy'n cael yr effaith fwyaf ar dir fferm, ansawdd dŵr a natur. Gellir defnyddio'r awgrymiadau cynllunio canlynol fel ysbrydoliaeth ar gyfer eich prosiect, ond byddant yn amrywio fesul safle.




1. Mae plannu clystyrau helyg trwchus ar orlifdir sy'n cael ei foddi'n aml yn sefydlogi glannau'r afon, yn lleihau erydiad ac yn creu ffynhonnell o weddillion coed. Mae hyn yn bwysig ar gyfer iechyd afonydd, ond ni ddylid gwneud hyn uwchben pont nac ased adeiledig.
2. Mae coed ar lannau afonydd yn darparu cysgod a strwythur ar gyfer cynefinoedd yn yr afon ac ar lannau'r afon. Fodd bynnag, ni ddylai gorchudd y canopi fod yn fwy na hanner sianel yr afon. Mae deiliach marw hefyd yn bwysig ar gyfer cylchoedd maetholion yn yr afon gan fod algâu yn torri'r dail i lawr, sydd yn ei dro yn bwydo'r pysgod.
3. Mae adfywio naturiol yn ffordd wych o greu coetir torlannol sydd yn aml angen llai o lafur a llai o adnoddau. Mae hefyd yn annog coed sydd wedi addasu'n dda i amgylchiadau'r safle. Mae hyn yn addas ar gyfer ardaloedd sydd â phwysedd pori isel, neu mewn ardal wedi'i ffensio gyda ffynhonnell hadau gerllaw.
4. Gall plannu torlannol gysylltu ac ymestyn cynefinoedd coetir presennol ar y fferm, gan greu coridorau bywyd gwyllt amrywiol. Mae cadw coed aeddfed ar lannau afonydd, yn ogystal â choed a changhennau sydd wedi cwympo, yn darparu cynefin ychwanegol.

Yn dibynnu ar gyfyngiadau a chyfleoedd y safle, dyma'r lledau lleiaf a argymhellir ar gyfer plannu torlannol.

- 10m ar hyd sianeli sy'n llai na 2m o led
- 20m ar hyd cyrsiau dŵr sy'n fwy na 2m o led, neu ar hyd llynnoedd a gwlyptiroedd
- 50m o amgylch tyllau turio, ffynhonnau neu fannau codi dŵr eraill

Sylwer: Mae'n bosibl y bydd angen caniatâd penodol gan Cyfoeth Naturiol Cymru ar gyfer plannu coed penodol ar hyd 'prif afonydd' neu fannau codi dŵr.

Os oes gennych ddiddordeb mewn plannu coed ar ffermydd a chyfleoedd eraill i ddarganfod mwy ymweliad **woodlandtrust.org.uk/plant** neu cysylltwch **plant@woodlandtrust.org.uk**


Kempton Way, Grantham, Lincolnshire NG31 6LL
**0330 333 3300** **woodlandtrust.org.uk**


The Woodland Trust logo is a registered trademark. The Woodland Trust is a charity registered in England and Wales number 294344 and Scotland number SC038885. A non-profit-making company limited by guarantee. Registered in England number 1982873.



Mae'r daflen hon wedi'i gwneud yn bosibl diolch i chwaraewyr y People's Postcode Lottery.

COED CADW WOODLAND TRUST

PEOPLE'S POSTCODE LOTTERY

POSTCODE GREEN TRUST

FSC MIX Paper FSC® C189282

DC00496